

Mae Plant Dewi wedi gweithio gyda phobl yn eu cymunedau i sefydlu canolfannau sy'n cynnig cefnogaeth i deuluoedd â phlant bach. Mae pobl leol wedi ffurfio pwyllgorau, sicrhau statws elusennol a denu cyllid. Mae tai awdurdodau lleol, hen gapeli a thir segur wedi'u trawsnewid yn ganolfannau teulu. Mae pob canolfan deulu'n uniryw yn ei dyluniad ond gall teuluoedd fod yn dawel eu meddwl fod pob un yn cynnig croeso cynnes a chefnogaeth i'w helpu i gyflawni un o dasgau anoddaf bywyd - bod yn 'rhiant'. Mae canolfannau teulu wedi'u hagor yng Nghaerfyrddin, Pencader, Llanybydder, Trimsaran, Betws, Garnant, Felinfoel, Llanelli, Porth Tywyn a Morfa.

Mae canolfannau teulu'n cynnig amgylchedd 'cartrefol' i alluogi teuluoedd i gwrdd â theuluoedd eraill, cefnogi rhieni i fagu eu plant a'u cynorthwyo i oresgyn y rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwella eu bywydau. Maent yn lleoliadau lle gall plant gael profiadau plentyndod gwerthfawr. Mae'r canolfannau'n gweithio gyda'r plant a'u teuluoedd i leihau straen, cadw teuluoedd yn gadarn a chefnogi teuluoedd i'w galluogi i barhau i fyw gyda'i gilydd yn eu cymunedau. Y nod yw gwella bywydau'r holl deuluoedd sy'n mynychu drwy feithrin eu sgiliau bywyd, a fydd yn eu galluogi i wneud newidiadau cadarnhaol a fydd o fudd iddynt.

Mae canolfannau teulu'n cynnig gwasanaeth mynediad agored cynnil ac ataliol i deuluoedd a phlant bach sy'n ddigon hyblyg i gynnig ymyrraeth mewn ymateb i anghenion. Mae'r 'dull gweithredu canolfan deulu' yn seiliedig ar y cyd-destun o weithio mewn partneriaeth ag aelodau'r teulu a grymuso rhieni a phlant fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Plant 1989.

Y flaenoriaeth allweddol yw mabwysiadu dull gweithredu holistaidd sy'n ymateb i anghenion y teulu, yn arbennig eu lles emosiynol, er mwyn gwella eu gallu i ymdopi â heriau bywyd teuluol a helpu plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial.

Yn gyffredinol, mae canolfannau teulu'n gweithredu y tu allan i ffiniau asiantaethau yn y meysydd Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd, Addysg a Gofal Plant, ond maent yn cynnig gwasanaeth cefnogol i'r asiantaethau hynny.

Nid yw canolfannau teulu'n gwahaniaethu ar sail oedran, hil, rhyw nac anabledd. Maent yn cynnig gwasanaeth i deuluoedd o gefndiroedd amrywiol. Mae'r ddeinameg o gymdeithasu yn creu rhwydweithiau sy'n bodoli y tu allan i'r ganolfan yn y gymuned ehangach, gan chwalu rhwystrau a hyrwyddo dulliau

cynhwysol o adfywio cymunedau.

Mae canolfannau teulu'n grymuso pobl, gan fagu eu hyder a'u hunan-barch er mwyn iddynt allu meithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i wneud penderfyniadau da yn eu bywydau, a all arwain at fwy o gyfleoe

